**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Chwefror 15fed 2016 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Colin Hughes (cadeirydd), Roy Tickle (is gadeirydd), Raymond Bartley, Brian Davies, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Marilyn Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - unrhyw faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(2) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda B3(2)(6) - cymorthdaliadau - Coleg Llandrillo Dinbych - personol.
(3) Cyng Roy Tickle - eitem agenda B3(2)(1) - cymorthdaliadau - Marchnad y Bobl Dinbych - personol.
(4) Cyng Gaynor Wood-Tickle - eitem agenda B3(2)(1) - cymorthdaliadau - Marchnad y Bobl Dinbych - personol.

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Ionawr 18fed 2016.**

**3. Materion yn codi:** Goleufeydd Pen Blwydd y Frenhines yn 90 oed 21.4.16. Gofynnodd y Cyng Roy Tickle os oedd CSDd yn trefnu unrhyw ddathliad. Mewn ateb dywedodd y Cyng Raymond Bartley nad oedd yn ymwybodol o unrhyw drefniadau.

**A. <u>Amgylchedd.</u>**

**1. Adolygiad Trefniadau 2015**.

(1) <u>Torri Glaswellt:</u> Cytunwyd fod y contractwr wedi gwneud gwaith da.
(2) <u>Clirio Llwybrau.</u> Yma eto gwaith da iawn.
(3) <u>Arddangosfa balconi Neuadd y Dref</u> - Da
(5) <u>Cynwysyddion Llyfrgell Dinbych.</u> - Da
(6) <u>Gardd Goffa Dr Evan Pierce:</u> Cytunwyd yn gyffredinol fod yr ardd wedi ei chadw mewn cyflwr da.

**2. Trefniadau 2016.**

(1) <u>Torri Glaswellt</u>. Cytunwyd i ofyn am bris oddi werth yr un contractwr (CSDd) ar gyfer y tymor i ddod.
(2) <u>Clirio Llwybrau:</u> Cytunwyd i ofyn am bris oddi wrth y contractwr ar gyfer y tymor i ddod.
(3) <u>Arddangosfa balconi Neuadd y Dref</u>. Cytunwyd i barhau a'r cafnau blodau yn ystod y tymor i ddod ac unwaith eto i ofyn am bris oddi wrth Ganolfan Garddio Greenfingers.
(4) <u>Llyfrgell Dinbych.</u> Cytunwyd i barhau am y tymor i ddod ac unwaith eto i ofyn am bris oddi wrth Ganolfan Garddio Greenfingers.
(5) <u>Gardd Dr Goffa Dr Evan Pierce:</u> Roedd Sodexo o dan gontract gyda'r cyngor am ddeg mlynedd a'r flwyddyn yma fydd yr 9fed. Cytunwyd i gadw ymlaen gyda gwasanaeth Prue Probert fel ymgynghorydd.

**B. <u>Cyllid</u>**

**1. Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Catrin Gilkes - gwasanaeth cyfieithu 25.1.16<br>(Rhif siec 005809) | - | £95.00 |
| (2) | CSDd - cynnal a chadw 2015/2016 (Cofnod A2 dyddiedig<br>15.6.15 yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005810) | - | £1,354.04 |
| (3) | CSDd - cynnal a chadw'r parc sglefrio 2015/2016<br>(Rhif siec 005811 | - | £5,290.42 |
| (4) | Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 18.1.16<br>(Rhif siec 005812) | - | £103.20 |
| (5) | Cambrian Woodland Services - Coed Nadolig<br>(Rhif siec 005813) | - | £1,345.20 |
| (6) | Cyng Gaynor Morgan Rees - costau teithio (Aberystwyth)<br>(Rhif siec 005814) | - | £73.80 |
| (7) | Viking Payments - siec newydd yn lle'r siec a yrrwyd 21.12.15<br>(rhif 005782) ond ni dderbyniwyd<br>(Rhif siec 005815) | - | £51.25 |
| (8) | Cymdeithas Gefeillio Dinbych - aelodaeth 2016<br>(Rhif siec 005816) | - | £10.00 |
| (9) | CSDd - costau is-etholiad yn y Ward Uchaf 4.2.16<br>(Rhif siec 005817) | - | £2,722.69 |
| (10) | BT - bil ffon<br>(Rhif siec 005818) | - | £197.02 |
| (11) | SLCC - hysbyseb swydd clerc y dref<br>(Rhif siec 005819) | - | £108.00 |
| (12) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Ionawr)<br>(Rhif siec.005820) | - | £20.54 |

Cyfanswm taliadau: £11,371.16

**2. Nodwyd a derbyniwyd adroddiad ariannol 1.4.15 - 31.1.16.**

**3. Cymorthdaliadau**: 1. Nodwyd y llythyrau ac e-byst yn diolch a dderbyniwyd oddi wrth (1) Theatr Twm o'r Nant, (2) Cynnig, (3) Eisteddfod Genedlaethol Cymru

2. Ystyriwyd yn fanwl y ceisiadau canlynol am gymorthdaliadau a gwnaed penderfyniadau ar bob un fel a ganlyn:

(1) Marchnad y Bobl Dinbych - £500 (A.137)(Rhif siec 005823)
(2) RainbowBiz Ltd - Nodwyd fel wedi ei dynnu'n ôl am nad oedd o fewn cylch gwaith y cyngor tref.
(3) Denbigh Men's Shed - Gohiriwyd ymhellach er mwyn i'r ceisydd archwilio i mewn i ffynonellau eraill o ddatblygu gweoedd.
(4) Tenovus - £100 (A.137)(Rhif siec.005824)
(5) Dafydd Wyn Jones - gwrthodwyd y cais am nad oedd y ceisydd yn byw o fewn ffiniau'r cyngor tref ac nad oedd gan y cyngor yr awdurdod i roddi grantiau i unigolion.
(6) Coleg Llandrillo - £700 (A.145)(Rhif siec 005825)
(7) Dinbych yn ei Flodau - £1,500(A.137)(Rhif siec 005826)
(8) Urdd Gobaith Cymru - Eisteddfod 2016 - £150 (A.145)(Rhif siec 005827)
(9) Shihan Shirley Smith - gwrthodwyd y cais am nad oedd y cais yn datgelu fod pobl o Ddinbych yn ymglymedig ac nid oedd gan y cyngor yr awdurdod i roddi grantiau i unigolion. I gynghori'r ceisydd i gysylltu ag Amy Selby yn CSDd.

Cyfanswm taliadau cymorthdaliadau: £2,950.

**4.** **Asesiad Risg.** Cyflwynodd clerc y dref y diweddariad ar yr asesiad risg a diweddarwyd olaf a'i gymeradwyo gan y cyngor ar Fawrth 25ain 2015. Cytunwyd nad oedd angen ei diweddaru ymhellach a chymeradwywyd yr asesiad risg.

**5.** **Strategaeth Buddsoddiad Blynyddol 2016/2017.** Ystyriwyd y drafft o'r strategaeth buddsoddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd i ddod, 2016/2017. Cytunwyd i gymeradwyo'r ddogfen.

**6.** **Polisi arian wrth gefn ar arian a gariwyd ymlaen Mawrth 31ain 2016.** Ystyriwyd y polisi drafft a chytunwyd i fabwysiadu'r polisi.

**7.** **Rhestr Ymchwiliad Risg Ariannol.** Ystyriwyd y rhestr ymchwiliad risg ariannol a baratowyd gan glerc y dref. Cytunwyd i gymeradwyo'r rhestr ymchwiliad.

**8.** **Gwefan y Cyngor.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd ynglŷn â chysylltiadau ychwanegol oedd yn bosibl. Cytunwyd i gyfeirio'r mater i'r cyngor llawn am benderfyniad ac i'r aelodau edrych ar y cysylltiadau a awgrymwyd.

**9.** **Parcio am ddim.** Cyfeiriodd clerc y dref at y cais a dderbyniwyd yn gynharach yn y dydd oddi wrth Grŵp Busnes Dinbych am barcio am ddim yn ystod Gŵyl Dydd Gŵyl Dewi Sant ar Chwefror 20fed 2016. Dywedwyd fod y cais yn hwyr yn dod i mewn. Cytunwyd i gytuno a'r cais.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.07 o'r gloch.

Arwyddwyd:....................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................